# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at WAQ22715 i WAQ22722, a gyhoeddwyd gan Carwyn Jones, y Trefnydd, ar 31 Mawrth 2003

### At Ieuan Wyn Jones:

Yn ddiweddar, gofynasoch gyfres o gwestiynau ynglŷn ag aelodaeth gofrestredig o bleidiau gwleidyddol ymysg aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad (WAQ22715; WAQ22716; WAQ22717; WAQ22718; WAQ22719; WAQ22720; WAQ22721; WAQ22722).

Yn fy ateb, eglurais nad oes gwybodaeth yn cael ei chasglu am aelodaeth y rhai a benodir o bleidiau gwleidyddol. Fodd bynnag, gofynnir i bob un sy'n ymgeisio am swydd gyhoeddus ateb cwestiwn am weithgaredd gwleidyddol ar ei ffurflen gais. Mae copi o'r ffurflen y gofynnir iddynt ei llenwi i'w weld yn atodiad B.

Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei chasglu ynghyd erbyn hyn ac fe'i dangosir yn y tabl yn atodiad A.

Fe welwch nad yw'r wybodaeth ar gael am leiafrif bach o ddeiliaid swyddi. Mewn dau achos mae deilydd swydd wedi nodi ei fod wedi ymwneud â gweithgaredd gwleidyddol ond nid enwyd y blaid wleidyddol dan sylw. Mae yna hefyd rai aelodau nad ydynt yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### Atodiad A: Aelodaeth CCNC o Bleidiau Gwleidyddol

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes – Jane Davidson**

| Corff | Nifer a benodwyd gan LCC | Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol | Ceid | Llafur | Dem-Rhydd | Plaid Cymru | Heb fanylu | Gwyb ddim ar gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | 12 | 10 | | 1 | | 1 | | |
| Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant | 11 | 9 | | 1 | 1 | | | |
| Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru | 11 | 9 | | 2 | | | | |
| Tasglu'r Fargen Newydd yng Nghymru | 14 | 12 | | 2 | | | | |
| Cyfanswm | 48 | 40 | | 6 | 1 | 1 | | |

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd - Sue Essex**

| Corff | Nifer a benodwyd gan LCC | Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol | Ceid | Llafur | Dem-Rhydd | Plaid Cymru | Heb fanylu | Gwyb ddim ar gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Henebion Cymru | 9 | 5 | | | | | | 4 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | 12 | 6 | | 1 | | | | 5 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | 2 | | | 2 | | | | |
| Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru | 6 | 2 | | | | | | 4 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 4 | 4 | | | | | | |
| Cyfanswm | 33 | 17 | | 3 | | | | 13 |

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Jane Hutt**

| Corff | Nifer a benodwyd gan LCC | Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol | Ceid | Llafur | Dem-Rhydd | Plaid Cymru | Heb fanylu | Gwyb ddim ar gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Panel ymgynghorol ar gamddefnyddio sylweddau | 12 | 9 | | 1 | | | | 2 |
| Cyngor Gofal Cymru | 20 | 14 | | 5 | | | 1 | |
| Grŵp ymgynghorol | 0[1] | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | | | | | | | | |
| Pwyllgor Cymru dros Ddatblygiad Proffesiynol Fferylliaeth | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Deintyddol Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Meddygol Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Optometreg Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Fferyllol Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol Cymru | 0[2] | | | | | | | |
| Grŵp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan | 14 | 11 | | 1 | | | | 2 |
| Cyfanswm | 46 | 34 | | 7 | | | 1 | 4 |

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg - Jenny Randerson**

| **Corff** | **Nifer a benodwyd gan LCC** | **Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol** | **Ceid** | **Llafur** | **Dem-Rhydd** | **Plaid Cymru** | **Heb fanylu** | **Gwyb ddim ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 14 | 8 | | 1 | | 4 | | 1 |
| Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru | 8 | 5 | | 1 | | | | 2 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 4 | 2 | | | | 1 | | 1 |
| Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | 6 | 5 | | 1 | | | | |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | 14 | 11 | | | | | | 3 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 11 | 7 | | 1 | | | | 3 |
| Cyfanswm | 57 | 39 | | 3 | | 5 | | 10 |

**Y Gweinidog Cyllid – Edwina Hart**

| **Corff** | **Nifer a benodwyd gan LCC** | **Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol** | **Ceid** | **Llafur** | **Dem-Rhydd** | **Plaid Cymru** | **Heb fanylu** | **Gwyb ddim ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru | 3 | 2 | | | | | | 1 |
| Cyfanswm | 3 | 2 | | | | | | 1 |

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor - Michael German**

| **Corff** | **Nifer a benodwyd gan LCC** | **Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol** | **Ceid** | **Llafur** | **Dem-Rhydd** | **Plaid Cymru** | **Heb fanylu** | **Gwyb ddim ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgorau Ymgynghorol Tai Annedd Amaethyddol [x 6] | 0[3] | | | | | | | |
| Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol [x 6] | 0[3] | | | | | | | |
| Yr Is-bwyllgor Ymgynghorol ar Ffermio Mynydd | 0[3] | | | | | | | |
| Panel apêl annibynnol y ffermwyr | 16 | 11 | | | | | | 5 |
| Cyfanswm | 16 | 11 | | | | | | 5 |

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd - Andrew Davies**

| **Corff** | **Nifer a benodwyd gan LCC** | **Heb ddatgan gweithgaredd gwleidyddol** | **Ceid** | **Llafur** | **Dem-Rhydd** | **Plaid Cymru** | **Heb fanylu** | **Gwyb ddim ar gael** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Croeso Cymru | 7 | 5 | | | | | | 2 |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 13 | 9 | | 3 | | | 1 | |
| Bwrdd Ymgynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru | 7 | 6 | | 1 | | | | |
| Cyfanswm | 27 | 20 | | 4 | | | 1 | 2 |

1. Neb mewn swydd ar hyn o bryd.
2. Gwneir y penodiadau hyn o bwyllgorau ardal ac nid oes a wnelo'r Gweinidog â nhw.
3. Neb mewn swydd ar hyn o bryd.

**Atodiad B: Holiadur gweithgaredd gwleidyddol**

Dylai **pob un** sy'n ymgeisio am benodiad cyhoeddus ateb y cwestiwn isod.

Gofynnir y cwestiwn hwn am ddau reswm:

- mae'n fodd i fonitro gweithgaredd gwleidyddol y rhai sy'n ymgeisio am benodiad cyhoeddus yn yr ystyr bod yr wybodaeth eisoes yn agored i'r cyhoedd. Nid yw gweithgaredd na chysylltiad yn faen prawf penodi (ac eithrio lle bo cynrychiolaeth benodol yn cael ei mynnu drwy statud);

- mae ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol yn galluogi unigolion i feithrin ac arddangos sgiliau a phrofiadau na fyddent efallai wedi eu hennill fel arall. Efallai y cewch eich holi am y rhain os ydynt yn berthnasol i'ch cais.

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei chyhoeddi wrth i'ch penodiad gael ei gyhoeddi.

*Dylech nodi pa rai o'r gweithgareddau canlynol yr ydych wedi ymgymryd â nhw dros y pum mlynedd diwethaf drwy dicio'r blwch priodol a manylu ar yr hyn y buoch yn ymwneud ag ef. Enwch y blaid neu'r corff y buoch yn gweithredu ar ei rhan. Os ydych wedi bod neu os ydych ar hyn o bryd yn gynrychiolydd Annibynnol neu os ydych wedi ceisio neu wedi cael swydd fel cynrychiolydd buddgarfan benodol, dylech ddatgan hyn. Dylech dicio pob categori perthnasol.*

a. ☐ Wedi cael swydd fel Aelod Cynulliad, Cynghorydd Lleol, AS, ASE ayb.
☐ Wedi sefyll fel ymgeisydd am un o'r swyddi uchod
☐ Wedi siarad ar ran plaid neu ymgeisydd

b. ☐ Wedi gweithredu fel asiant gwleidyddol
☐ Wedi dal swydd fel Cadeirydd, Trysorydd neu Ysgrifennydd cangen leol plaid
☐ Wedi canfasio ar ran plaid neu wedi helpu mewn etholiadau
☐ Wedi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol arall sy'n berthnasol yn eich tyb chi

c. ☐ Wedi rhoi rhodd gofnodadwy i blaid wleidyddol[1]

d. ☐ Nid oes yr un o'r gweithgareddau uchod yn berthnasol

*Manylion eich ymwneud:*

[1] Yn ôl Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 mae'n ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gyhoeddi cofrestr o roddion cofnodadwy (rhoddion gwerth mwy na £5,000 mewn unrhyw flwyddyn galendr oddi wrth unrhyw unigolyn, neu fwy na £1,000 os yw'n rhodd i is-uned gyfrifo megis cymdeithas etholaeth, cangen leol, mudiad menywod neu ieuenctid). Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 16 Chwefror 2001.

*Enw'r Blaid y gweithredwyd ar ei rhan:*

ENW...................................…………LLOFNOD.....................……..

DYDDIAD………………….